Chwarae Teg®
Solutions | Atebion

Gweithredu a Rheoli Amgylchedd Gweithio Hyblyg

Diben

Mae'r gweithdy hwn yn galluogi rheolwyr i ddeall sut mae arferion gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn dod â manteision pendant i fusnes a sut i weithredu'r polisïau sydd ganddynt yn effeithiol yn eu sefydliadau. Bydd hefyd yn egluro sut i ymateb i geisiadau am weithio'n hyblyg a sut i weithio gyda gweithwyr i ddod o hyd i'r strwythur priodol sy'n eu cefnogi nhw ac anghenion y busnes.

Sut fyddwch chi'n elwa

Byddwch yn dysgu sut i wella cynhyrchiant a pherfformiad trwy ddefnyddio strategaethau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Llai o absenoldeb, salwch a straen
- Gwasanaeth gwell i gwsmeriaid
- Gallu uniaethu'n well â chwsmeriaid o ganlyniad i weithlu mwy amrywiol
- Morâl yn well a mwy o deyrngarwch
- Dod yn gyflogwr o ddewis

Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio'r polisïau sydd gennych yn effeithiol a sut i ddatblygu diwylliant o ganlyniadau seiliedig ar allbwn yn hytrach na mesur yn ôl presenoldeb.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

- Sut i greu pecyn gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith effeithiol i sicrhau manteision i'r busnes
- Proses Team Based Solutions©
- Sut i greu strategaeth gyfathrebu effeithiol, cynlluniau treialu a rhaglen weithredu
- Sut i nodi materion posibl a allai godi yn ystod y gwaith o dreialu a gweithredu a nodi datrysiadau

Hyd

1 diwrnod

Ffi

£185 + TAW y pen
Disgownt o 10% am ail gynrychiolydd o'r un sefydliad

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â atebion@chwaraeteg.com neu galwch 029 2047 8900 neu ewch i'r wefan http://www.cymraeg.chwaraeteg.com/atebion